**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**i. Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy ynghylch comisiynu gwasanaethau ar gyfer carcharorion.**

**ii. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**iii. Cyfarwyddiadau Diwygiedig i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru I roi canllawiau arfarnu technoleg NICE ar waith cyn pen tri mis**

**iv. Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu)**

1. Trafododd y Pwyllgor y rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror 2006. Fe'u trafodwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth a gytunwyd gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau'n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu ddiwygiadau sydd ganddynt i'r drafft.

2. Ni chynigiwyd diwygio dim ar y ddeddfwriaeth ond eglurwyd nifer o bwyntiau gan y Gweinidog ac roedd y Pwyllgor yn fodlon. Atodir adroddiad gair am air o'r cyfarfod.

**i. Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy ynghylch comisiynu gwasanaethau i garcharorion.**

3. Pwyntiau i'w hegluro:

- Pa arian ychwanegol a ddarperir I Fyrddau Iechyd Lleol yr effeithir arnynt?
- Ynghylch eithrio comisiynu gofal ysbyty seiciatryddol ; a wnaiff y Gweinidog fanylu ar y drefn a ddilynir pan fydd hi'n anodd canfod trigfan arferol yr unigolyn?

**ii. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006**

4. Pwyntiau i'w hegluro:

- Mae Rheoliadau 31 a 32 yn rhoi'r rhesymau dros wrthod a dileu oddi ar restrau cyflawnwyr ac mae paragraff 13 o Bapur y Gweinidog yn egluro eich bod , ond ichi fod ar restr un Bwrdd Iechyd Lleol, yn gallu gweithredu mewn un arall.  Pa drefniadau a geir i sicrhau trosglwyddo

i bob Bwrdd Iechyd Lleol arall wybodaeth am y rhai y gwrthodir iddynt gofrestru neu a symudir oddi ar restr?
- Sut bydd y rheoliadau hyn yn ymdrin â materion trawsffiniol?

**iii. Cyfarwyddiadau Diwygiedig i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru I roi canllawiau arfarnu technoleg NICE ar waith cyn pen tri mis**

5. Pwyntiau i'w hegluro:
- Para 5 yn y memorandum eglurhaol – Goblygiadau Ariannol –Ai bwriad y Gweinidog yw rhoi i'r Byrddau Iechyd Lleol yr arian ychwanegol sydd, yn ei farn ef, yn angenrheidiol ar gyfer y costau cychwynnol a'r costau parhaus?
- Para 5 yn y memorandum eglurhaol – Goblygiadau Ariannol –ydy'r rhaglen hyfforddi DAFYDD yn cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer canllawiau NICE?
- Pa fesurau a sefydlwyd er mwyn ehangu'r gallu i roi'r cyfarwyddiadau ar waith?

**iv. Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu)**
**Jonathan Morgan AM**

6. Pwyntiau i'w hegluro:

- Os na fydd rhiant maeth yn cydymffurfio â'r gofynion hysbysu, pa sancsiynau neu iawn sy'n agored i'r awdurdod lleol?
- A oes sefyllfaoedd eithriadol lle na fyddai'r gofynion hysbysu'n gymwys?
- Mae Rheol 6. yn cyfeirio at yr angen i hysbysu o fewn 48 awr o ddechrau'r trefniant. Beth yw ystyr "dechrau'r trefniant"? Bydd rhai plant yn dechrau byw gyda theuluoedd eraill mewn modd anffurfiol sydd yn troi yn ddiweddarach yn faethu ffurfiol, ac felly gallai union ddyddiad ''dechrau'r trefniant''fod yn ansicr.
- Mae Atodlen 2, yn cyfeirio at Rheol 4. Para 1(c) ac Atodlen 3 yn cyfeirio at reoliadau 7 ac 8 Para 1(g). Mae'r ddau yn cyfeirio at 'addasrwydd y llety'. Pa feini prawf a ddefnyddir i bwyso a mesur 'addasrwydd y llety'?
- A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y modd yr ymgorfforwyd awgrymiadau a wnaed yn ystod y weithdrefn ymgynghori i'r rheoliadau? *(Ni thrafodwyd y pwynt hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor; bydd yr Aelod a'i cododd yn ei drafod â'r Gweinidog yn annibynnol)*

**Rhodri Glyn Thomas**
Cadeirydd
Chwefror 2006